

THOMAS, DAVID RICHARD (1833 - 1916), clerigwr a hanesydd

Enw: David Richard Thomas
Dyddiad geni: 1833
Dyddiad marw: 1916
Rhiant: Mary Thomas
Rhiant: Owen Thomas
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr a hanesydd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn 1833 (bedyddiwyd 14 Medi 1833) yn ail fab a thrydydd plentyn i Owen a Mary Thomas, 'gentleman-farmer,' Bodynfol, Llanfechain. Bu yn ysgol Rhuthyn dan [Barnwell](#), ac aeth i Goleg Iesu, Rhydychen, yn 1852, er bod amgylchiadau'r teulu wedi gwaethygu yn herwydd marw sydyn y tad, a'r llanc yn gorfod cymryd swyddi fel athro yn y gwyliau i'w gadw ei hunan; graddiodd yn 1856 - ymgeisiodd am gymrodoriaeth yn 1859, ond ni ddewiswyd ef. Urddwyd ef yn 1857 yn gurad Rhuddlan; bu wedyn (1859-64) yn gurad Selatyn, yn ficer Cefn Meiriadog (1864-77), yn ficer Meifod (1877-92), ac yn rheithor Llandrinio (1892-1916); penodwyd ef yn ganon yn Llanelwy yn 1881 ac yn archddiacon Maldwyn yn 1886. Yr oedd yn offeiriad ymroddgar yn ei blwyfi, yn archddiacon cydwybodol, yn amddiffynnydd selog i'w Eglwys, a chyhoeddodd bedwar llyfr crefyddol. Eto i gyd, fel hynafiaethydd a hanesydd y g yr y byd o'r tu allan amdano. Bu'n gefn mawr i Gymdeithas Hynafiaethol Cymru : yn gadeirydd ei phwyllgor, ac yn olygydd ddwywaith (1875-80, 1884-8) i *Archæologia Cambrensis* - cyfrannodd dros 25 o ysgrifau iddo. Yn yr un modd, yr oedd yn gadeirydd pwyllgor y 'Powysland Club,' a bu am flynyddoedd lawer yn olygydd *Mont. Coll.* ac yn gyfrannwr cyson iddo. Ar ben y gweithgareddau hynafiaethol hyn (yr oedd yn F.S.A.), y gellir chwaneu atynt ei argraffiad o'r *Cwta Cyfarwydd*, 1883, gwaith [Peter Roberts](#), a'i *History of the Parish of Llandrinio*, 1895, cydiodd mewn pwnc lletach ei apêl pan gyhoeddodd, 1902, *The Life and Work of Bishop Richard Davies and William Salesbury*. Ond ei gampwaith yw ei *History of the Diocese of S. Asaph*, a ddaeth allan yn ei ffurf gyntaf yn 1870-4, ond a helaethwyd yn dair cyfrol, 1906-13. Esgobaeth Llanelwy yn unig yng Nghymru hyd yn hyn a freiniwyd ag ymdriniaeth helaeth a manwl â'i hanes, ac ni ellir mesur dyled chwilotwyr diweddarach i'r archddiacon am y gwaith gwych hwn (cyhoeddodd hefyd yn 1888 lawlyfr bychan ar hanes yr esgobaeth). Bu farw 11 Hydref 1916.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Foster, *Alumni Oxonienses*

ysgrifau coffa yn *Archæologia Cambrensis*, 1916, 369-72

Obituary: The Ven. Archdeacon Thomas, M.A., F.S.A., Collections historical & archaeological relating to Montgomeryshire and its borders, xxxviii, 269-77

Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, haf 1946, 214-6

Owen Williams, *Llyfryddiaeth Sir Ddinbych* (1935-7, 1951), 163-4 (rhestr o'i weithiau)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [93257488](#)

Wikidata: [Q5240335](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

